OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 2079 (Cy. 315)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 a'r Ffordd Gyswllt (Cyffordd Travellers' Rest, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Rhagfyr 2015* |
| *Yn dod i rym* | *4 Ionawr 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A40) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'r ffordd gyswllt oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Ionawr 2016. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 a'r Ffordd Gyswllt (Cyffordd Travellers' Rest, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro) 2015.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

---

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro)1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi.

(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru

ystyr “cerbyd esempt” *(“exempted vehicle”)* yw

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr, ac

(c) sy’n cael ei yrru am y tro gan berson yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at y diben o hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 4 Ionawr 2016 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod y gwaith eu symud ymaith;

ystyr “lluoedd arbennig” *(“special forces”)* yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

ystyr “y darnau o’r ffordd gyswllt” (*“the lengths of the link road”)* yw’r darnau hynny o’r ffordd gyswllt sy’n cysylltu’r slipffyrdd ymuno ac ymadael tua’r dwyrain i’r de-orllewin o drosbont Travellers’ Rest wrth Gyffordd Travellers’ Rest yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” *(“the lengths of the trunk road”)* yw’r darnau hynny o gefnffordd yr A40 wrth Gyffordd Travellers’ Rest yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

## Cyfyngiad a Gwaharddiad

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a’r ffordd gyswllt a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr, ar y darnau o'r ffordd gyswllt a bennir yn Atodlen 2.

**Atal dros dro**

**5.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn perthnasol o'r ffordd gyswllt a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal drwy hyn ar adegau pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**6.—(1)** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 29 Rhagfyr 2015

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

# ATODLEN 1

## Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darnau o’r slipffyrdd ymuno ac ymadael tua’r dwyrain ar gefnffordd yr A40 a’r ffordd gyswllt i drosbont Travellers’ Rest sy’n ymestyn o bwynt wrth eu cyffyrdd â phrif gerbytffordd cefnffordd yr A40 tua’r dwyrain hyd at bwynt wrth y gyffordd ag Old Road.

# ATODLEN 2

## Terfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro

Y darn o’r ffordd gyswllt sy’n ymestyn o ynys hollti ymuno/ymadael yr A40 tua’r dwyrain hyd at bwynt 200 metr i’r dwyrain o’r gyffordd â’r ffordd gyswllt i Farchnad Da Byw Caerfyrddin